

Cronfa Helpu Cymru ar ôl Storm Dennis

Mudiad	Lleoliad	Disgrifiad o'r cais	Grant a ddyfarnwyd
Canolfan Gymunedol Trefforest	Rhondda Cynon Taf	<p>Brasamcan o'r tai a effeithiwyd yn Nhrefforest yw 54 o dai.</p> <p>Ar agor ers dydd Sul 16 Chwefror fel canolfan cymorth llifogydd.</p> <p>Darparu eitemau fel nwyddau gwynion, o oergelloedd bach oddeutu £100, peiriannau golchi £160, sychwyr dillad £120 i'r rheini sydd angen microdon ac ati am £45.</p> <p>Bydd y grŵp yn siarad â'r rheini a effeithiwyd yn uniongyrchol i weld beth sydd ei angen.</p>	£5,000.00
Tîm Chwilio ac Achub Aberdyfi	Gwynedd	<p>Yn ystod yr achosion diweddar o lifogydd yn Nolgellau, cawsom ein galw i gynorthwyo â'r gwaith o achub modurwyr a oedd wedi'u dal mewn llifogydd. Nid oedd gennym ni ddyfeisiau arnofio personol (PFD) o faint priodol ar gyfer y plant a oedd yn gysylltiedig â'r achos. Rydyn ni eisiau prynu 4 siaced achub i gau'r bwlch hwn yn y cyfarpar rydyn ni'n eu darparu.</p>	£313.80

Green Valley Wellbeing Group	Rhondda Cynon Taf	<p>Rydyn ni'n rheoli gardd gymunedol ac yn cynnal gweithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu amrywiol ar gyfer y gymuned a'i chyflogadwyedd ac er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a gwarchod bywyd gwyllt.</p> <p>Mae ein safle ni ar orlifdir ac un o'n cynefinoedd mwyaf gwerthfawr yw ein cynefin coetir gwlyb sydd wedi'i fwrw'n galed iawn gan y llifogydd. Cafodd coed ei rhwygo o'r ddaear yn gyfan gwbl; mae'r holl goetir bellach yn llawn gwastraff domestig ac mae ein llwybr a phont bren wedi'u difrodi'n ofnadwy.</p> <p>Cafodd ein sied/swyddfa ei fwrw'n wael hefyd, a gwnaethom gollu ein holl waith papur, mae angen cael camera bywyd gwyllt a sofffa newydd, ynghyd â rhai deunyddiau dysgu fel siartiau troi a llyfrau.</p>	£5,000.00
Hope Rescue	Rhondda Cynon Taf	<p>Mae'r Siop Elusen yn 77 Heol Taf wedi'i heffeithio'n ddifrifol gan y llifogydd. Rydyn ni wedi gorfod cau'r siop sy'n darparu incwm hanfodol ar gyfer y ganolfan achub cŵn a'r gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys caffi lle mae croeso i gŵn.</p> <p>Mae ein siop elusen yn gwneud oddeutu £9000 bob mis, a heb y ffrwd incwm hwn, bydd yn rhaid i ni wrthod cŵn sydd wedi'u gadael sydd angen ein gofal a'n cymorth. Rydyn ni hefyd yn darparu gwasanaeth hanfodol ar gyfer ein gwirfoddolwyr, yn rhoi lle diogel iddyn nhw ddefnyddio'u doniau, gwneud ffrindiau a dysgu sgiliau newydd. Ni fydd modd cynnal y gwasanaeth hwn am y tro hyd nes y byddwn ni'n gallu gwneud y safle'n ddiogel eto.</p>	£5,000.00
Canolfan Gymunedol Cilfynydd	Rhondda Cynon Taf	<p>Hoffem wneud cais am £5,000 i brynu 25 o docynnau gwerth £200 a fydd yn cael eu dosbarthu i gartrefi a effeithiwyd gan lifogydd ar Heol Cilfynydd, Stryd Sion a Heol Berw, sef rhai o'r manau a effeithiwyd waethaf yn ein hardal.</p> <p>Bydd y Ganolfan Gymunedol yn cyfeirio'r cyllid at y teuluoedd a effeithiwyd yng Nghilfynydd.</p>	£5,000.00

Little Lounge	Rhondda Cynon Taf	<p>I brynu 25 o docynnau Argos gwerth £200. Byddwn ni wedyn yn dosbarthu'r talebau hyn i deuluoedd â phlant rhwng 0 a 3 oed, sydd wedi colli eitemau gofal plant hanfodol fel bygîs, cadeiriau uchel, poteli a sterilyddion, a heb arian i brynu rhai newydd.</p> <p>Bydd Little Lounge yn cyfeirio cyllid ledled ardal Pontypridd, ond yn benodol at deuluoedd â phlant o dan 3 oed.</p>	£5,000.00
Civil Aid Voluntary Rescue Association (CAVRA)	Bro Morgannwg	<p>Bu CAVRA wrthi'n darparu cymorth llifogydd yn Nantgarw ar ddydd Sul 16 Chwefror 202, drwy ddefnyddio'i Dîm Achub Llifogydd, Cerbydau, Cychod, gwelyau cludo, cyfathrebiadau ac ati.</p> <p>Byddem ni'n chwilio am gyllid i brynu bad achub llifogydd ychwanegol, polion symud drwy ddŵr, pypmïau llifogydd a generadur.</p> <p>Bydd mwy na £4000 o hwn yn cael ei ddefnyddio i brynu cyfarpar a gaiff ei ddarparu, ei weithgynhyrchu a'i gynnal a chadw gan gwmni lleol.</p>	£5,000.00
Canolfan Gymunedol Trallwn	Rhondda Cynon Taf	<p>Mae hwn i gynorthwyo dioddefwyr llifogydd sy'n byw yn bennaf ar Heol Berw a Stryd Sion ym Mhontypridd. Cafodd y ddwy stryd eu heffeithio'n ddifrifol gan lifogydd 2020 a chawsant sylw mawr yn y newyddion.</p> <p>Efallai y gwelsoch chi ar y newyddion fod y ganolfan gymunedol wedi bod yn ganolog i'r gwaith cymorth llifogydd. Rydyn ni wedi meithrin cydberthynas gref â'n trigolion, felly rydyn ni mewn sefyllfa dda i wybod pwy fyddai'n cael budd o'r arian hwn. Rydyn ni'n cael ein cynorthwyo gan staff Rhondda Cynon Taf a 3 chwyselwr lleol.</p> <p>Bydd y rhan fwyaf o'r arian yn cael ei wario ar gynorthwyo'r rheini heb yswiriant. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd amrywiol, fel rhentu dadleithyddion, prynu nwyddau gwynion ac eitemau cyffredinol i'r cartref. Gwnaeth llawer o'n trigolion golli eitemau fel esgidiau a chotiau, felly bydden ni'n gallu gwneud gwahaniaeth go iawn.</p>	£5,000.00

Toogoodtowaste	Rhondda Cynon Taf	<p>Hyd yma, rydyn ni wedi helpu mwy na 60 o deuluoedd gyda phecynnau dodrefn, trydanol ac eitemau cartref am ddim i bobl sydd wedi'u heffeithio gan y llifogydd distrywiol.</p> <p>Elusen ailddefnyddio ydyn ni. Mae gennym ni dros 1,000 o eitemau ail-law yn ein hystafelloedd arddangos i bobl ddewis ohonyn nhw a dwsinau o eitemau yn cyrraedd bob dydd, sy'n golygu y gall pobl ail-ddodrefnu eu holl gartrefi gyda ni os oes angen.</p> <p>Rydyn ni'n chwilio am gyllid o £5,000 i helpu i gyllido pecynnau dodrefn, trydanol ac eitemau cartref pellach.</p> <p>Gyda phob £250 posibl o gyllid, gallwn ddodrefnu llawr daear cartref yn llwyr gydag eitemau hanfodol ail-law, fel dodrefn, eitemau trydanol ac eitemau cartref neu gall unigolion ddewis yr hyn sydd eu hangen mwyaf arnyn nhw. Mae gennym brofiad helaeth o weithio gyda phobl mewn argyfwng a'u cynorthwyo, ac yn ystod 2019, gwnaethom ni gynorthwyo mwy na 600 o bobl a gyfeiriwyd atom ni fel pobl mewn angen, gyda dodrefn ac eitemau trydanol hanfodol.</p>	£5,000.00
Mind Sir Fynwy	Sir Fynwy	<p>Hoffem gynnig sesiynau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i'r rheini a ddiodefodd yn y llifogydd yn Ynysgynwraidd a Riverside a rhannau eraill o Sir Fynwy a effeithiwyd. Byddwn ni'n cynnal cymorthfeydd agored mewn lleoliadau Cymunedol a hysbysebiri yn dda a chyda mynediad yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA).</p> <p>Byddwn ni'n cynorthwyo â cheisiadau FDA, ceisiadau yswiriant ac yn cyfeirio at grantiau eraill ac yn cynorthwyo pobl i wneud cais am y rheini, ynghyd â darparu cymorth emosiynol un i un i'r rheini a effeithiwyd. Gallwn atgyfeirio at fudiadau perthnasol eraill yn y trydydd sector a chynnig cyngor a chymorth gyda thai.</p> <p>Bydd Cwrs Seico-Addysgol Rheoli Straen yn cael ei gynnig yn y ddwy ardal gan ein haelodau profiadol o staff.</p> <p>Byddwn ni'n llogi Lleoliadau Cymunedol i wneud hyn.</p>	£1,500.00

The Willows Centre Troedyrhiw	Merthyr Tudful	<p>Ers y llifogydd, rydyn ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n cyrraedd yr ysgol yn gynharach ac yn gofyn am fwyd. Yn y gorffennol, rydyn ni wedi cael rhodd gan M&S, ond rydyn ni'n cysylltu â 30+ o bobl ifanc gyda llawer o'r rhain yn dod i'r ysgol heb fwyta.</p> <p>Gwnaethom hefyd gynnig lle i aelodau cymunedau gyfrannu bwydydd ac rydyn ni wedi cefnogi'r gwaith o gydlynu'r bwydydd sych sy'n mynd yn ôl i'r gymuned. Yr hyn rydyn ni wedi sylw arno yn sgil y llifogydd hyn yw bod llawer o aelodau cymunedol eisiau cyfrannu gan ein bod yn ganolfan lleol, ac nid oedd gennym ni ddigon o le i storio llawer o'r eitemau. Mae pobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan y llifogydd yn aros yn hirach o fewn y ganolfan, ac fel y nodwyd gennym, rydyn ni'n hapus i ddiwallu anghenion bwyd, ond mae'r nifer rydyn ni'n ymdrin ag ef wedi cynyddu'n aruthrol.</p> <p>Bydd gallu cynnig bwyd a lle i storio bwyd am y chwe mis nesaf tra bod llawer yn methu dychwelyd i'w cartrefi yn cefnogi llesiant a chydlyniant ein cymuned.</p>	£1946.39
Ravens Retreat	Castell-nedd Port Talbot	Prosiect bwthyn dymuniadau/ravens retreat yn Canalside Aberdulais. Rydyn ni'n darparu seibiannau a therapïau am ddim i unrhyw un â diagnosis diwedd oes neu oes gyfyngus. Cyllid i helpu i newid drysau blaen a chefn y bwthyn ar ôl y llifogydd.	£5,000.00
MIND Aberhonddu a'r Cylch	Powys	Rhedeg 8 sesiwn galw heibio brys er mwyn cynnig cymorth emosïynol i ddiodefwyr llifogydd Crucywel a'r Gelli.	£524.00
Canolfan Pentre	Rhondda Cynon Taf	<p>O ddiwrnod cyntaf y llifogydd, gwnaethom agor ein drysau i'r holl rai hynny a oedd wedi dioddef y dinistr o golli eu cartrefi. Daethom yn ganolfan ddsbarthu ar gyfer cynnyrch glanhau, bwyd, cyflenwadau a llawer mwy.</p> <p>Rydyn ni'n parhau i gynorthwyo'r rheini mewn angen yn sgil y llifogydd. Mae gennym bobl hyn a theuluoedd na fyddan nhw o bosibl yn gallu dychwelyd i'w cartrefi byth eto. Rhaid i ni eu cynorthwyo nhw mewn unrhyw fodd posibl.</p>	£4,900.00

		<p>Yn anffodus, gwnaethom ni hefyd ddioddef difrod o'r storm ein hunain. Bu'n rhaid taflu pob un o'n gorchuddion llawr di-lithr am eu bod wedi'u halogi, collodd to ein canolfan lawer o deils ac mae gennym ni fagiau plastig yn gorchuddio'r manau lle roedd y teils nawr.</p>	
--	--	--	--

Pontypridd Christian Concern	Rhondda Cynon Taf	<p>Rydyn ni'n gweithio ochr yn ochr â nifer o Eglwysi yn ardal Pontypridd ar hyn o bryd i gynnig cymorth i drigolion yn yr ardal a wasanaethir gan Gyngor Tref Pontypridd.</p> <p>Wedi'i hwyluso gan yr elusen leol, Pontypridd Christian Concern, mae'r £30,000 wedi'i dalu'n uniongyrchol nawr i drigolion gyda chymorth Cyngor Rhondda Cynon Taf, a grwpiau lleol yn awyddus i ddosbarthu'r cyllid hwn yn y modd mwyaf effeithlon, wedi i'r cynlluniau gwreiddiol gael eu llesteirio gan argyfwng Covid-19.</p>	£5,000.00
CVSC (Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy)	Conwy	<p>Cafodd nifer o gartrefi, busnesau a grwpiau cymunedol eu rhoi o dan ddŵr gan lifogydd ardal Llanrwst. Mae angen adnoddau sychu arnyn nhw (dadleithyddion ac ati)</p> <p>Deunyddiau glanhau Deunyddiau ailaddurno 'Deunyddiau adfer' megis bordiau sgertin, drysau, cegin, nwyddau gwynion, paent ac ati</p> <p>Ar gyfer digwyddiadau i ddod, cyflenwad o fagiau tywod a llifddorau cludadwy.</p>	£2,000.00
NPTCVS (Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot)	Castell-nedd Port Talbot	<p>Hoffai unigolion gael cymorth gyda chyllid tuag at gamau amddiffyn rhag llifogydd. Mae'r tai yn Canalside wedi profi llifogydd ers nifer o flynyddoedd, ond cawsant eu heffeithio'n sylweddol gan lifogydd diweddar Storm Dennis, gyda thri chwarter o'r cartrefi dan ddŵr, a hwnnw'n ddŵr budr.</p> <p>Mae 30 o dai yn Canalside, a hoffai pob eiddo wneud cymaint â phosibl i atal y mathau hyn o lifogydd rhag digwydd eto. Byddai'r camau amddiffyn rhag llifogydd yn cynnwys falfiau gwrthlif (gellir gosod y rhain ar ddraeniau i stopio carthffosiaeth rhag dod i mewn i gartrefi), llifddorau a champau priodol eraill.</p>	£15,000.00

<p>Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful</p>	<p>Merthyr Tudful</p>	<p>Hoffem wneud cais am gyllid i gael cynghorydd pwrpasol i gynghori a chynorthwyo cleientiaid sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y llifogydd, e.e. helpu cleientiaid gyda chyngor ariannol, taliadau Awdurdod Lleol, taliadau DAF a thaliadau Llywodraeth Cymru. Dyma rai enghreifftiau o'r pynciau y byddwn ni'n rhoi cyngor arnynt: hawliadau a dadleuon yswiriant, hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid, taliadau rhent os ydych chi wedi symud allan, digartrefedd yn sgil y llifogydd a glanhau a thrwsio cartrefi.</p> <p>Byddwn ni'n sefydlu darpariaeth allgymorth o fewn yr ardaloedd a effeithiwyd. Bydd gennym gynghorwyr hyfforddedig ar y safle a fydd yn gallu cynghori cleientiaid yn ddigonol a'u helpu drwy eu problemau. Byddwn ni hefyd yn cynnig ymweliadau cartref lle y bo'n berthnasol. Byddwn ni'n cyfrifo costau cynghorydd amser llawn i ddarparu cymorth a chyngor i ddioddefwyr llifogydd am gyfnod hyblyg o 10 wythnos. Bydd yr adnodd a ddefnyddir bob wythnos yn unol â'r galw. Byddwn ni'n darparu cyngor wyneb yn wyneb, drwy ddarpariaeth allgymorth, ymweliadau cartref ac apwyntiadau yn y swyddfa a byddwn hefyd yn cynnig cymorth dros y ffôn os bydd angen.</p>	<p>£4,920.00</p>
<p>Cymdeithas Rhandiroedd De Torfaen</p>	<p>Torfaen</p>	<p>Mae Cymdeithas Rhandiroedd De Torfaen yn rhedeg eu hardal her Canolfan Gymdeithasol Woodland Road, Cwmbran. Maen nhw'n grŵp gweithredol iawn. Cafodd eu rhandiroedd eu heffeithio'n wael gan lifogydd yr afon gyfagos (Afon Llwyd) – a oedd yn cynnwys sbwriel a difrod llifogydd i'w ffiniau ac ati. Caiff ei redeg gan wirfoddolwyr ac mae'n ardal lle gall aelodau eraill o'r gymuned orffwys.</p>	<p>£2,368.99</p>
<p>Rhondda Community Business Initiatives</p>	<p>Rhondda Cynon Taf</p>	<p>Er na wnaethom ddioddef unrhyw lifogydd diolch i'n lleoliad, gwnaeth storm Dennis adael twll go fawr yn ein to ni. Bydd angen trwsio hwn y tu allan gyda llechi, felly bydd angen gosod sgaffaldiau gan na fydd craen casglu ffrwythau'n addas.</p>	<p>£2,130.00</p>
<p>Cwmni Buddiannau Cymunedol Greenstream Flooring</p>	<p>Rhondda Cynon Taf</p>	<p>Hoffem wneud cais i'r gronfa llifogydd uchod i helpu i gefnogi ein trigolion sy'n wynebu anawsterau aruthrol y gallwn ni estyn help llaw gyda nhw o ran carpedi a lloriau.</p>	<p>£4,800.00</p>

Age Connects Morgannwg	Rhondda Cynon Taf	<p>Cafodd ein prif swyddfa yn 5-7 Stryd y Felin, ei llorio gan y llifogydd ac rydyn ni wedi colli popeth, felly bydd angen i ni gael pethau newydd nawr.</p> <p>Rydyn ni'n darparu gwasanaeth hanfodol o'r swyddfa hon, gan gynnig amrediad o wasanaethau i bobl 50 oed a hŷn yn Rhondda Cynon Taf.</p> <p>Mae ein Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor ar gael i bobl 50+ oed yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr dros y ffôn, neu drwy wasanaeth galw heibio ac apwyntiad yn swyddfeydd Pontypridd ac Aberdâr.</p>	£5,000.00
Cymorth Cymunedol Llanfair-ym-Muallt (BWCS)	Powys	<p>Mae'r clwb cinio misol a drefnir gan BWCS yn rhoi'r cyfle i hyd at 30 o drigolion gael pryd bwyd dau gwrs a mwynhau cymdeithasu â'i gilydd; ceir cwis a siaradwyr gwadd o bryd i'w gilydd a chynigir cludiant i'r Jubilee Hall yn Llanellwedd lle y caiff y ciniawau eu paratoi a'u gweini.</p> <p>Cafodd y Jubilee Hall ei llorio gan y llifogydd ac mae'n debygol o fod ar gau am fisoedd lawer. Collodd BWCS fwyd ac offer, a gorfu i'r staff weithio oriau ychwanegol er mwyn didoli a chael gwared â'n nwyddau ni.</p> <p>Mae dod o hyd i leoliadau dros dro ar gyfer y clwb cinio wedi bod yn anodd gan fod angen cegin go fawr arnom sydd â'r tystysgrifau iechyd angenrheidiol, a hynny o fewn pellter rhesymol. Mae BWCS wedi dod o hyd i leoliadau dros dro ar nawr, felly gall y clwb barhau, ond bydd y rhain yn costio mwy o lawer i ni.</p>	£1,600.00
Neuadd Bentref Ffynnon Taf	Caerdydd	<p>Prynu a gosod ffenestri a drysau newydd. Byddai ailwampio'r cyfleusterau hyn yn galluogi mwy o ystafelloedd o fewn y Neuadd Bentref i gael eu defnyddio er mwyn darparu mwy o'r gwasanaethau sydd eu hangen yn y gymuned. Dyma rai o'r prif wasanaethau a fyddai'n cael eu darparu yn ystod y flwyddyn nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Casglu a chludo parseli bwyd - Cymorth gofal plant a gweithgareddau cymorth i rieni - Cryfhau cydberthnasau rhwng cymheiriaid 	£5,000.00

		- Rhoi cymorth i'r henoed	
--	--	---------------------------	--